# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Fynwy

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn Cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2503A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei sefyllfa ariannol, ond mae'r sefyllfa honno'n gryn her gyda phwysau sylweddol o ran gwariant, balansau isel mewn cronfeydd wrth gefn ac arbedion yn dod yn anos i'w cyflawni.

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei sefyllfa ariannol, ond mae'r sefyllfa honno'n gryn her gyda phwysau sylweddol o ran gwariant, balansau isel mewn cronfeydd wrth gefn ac arbedion yn dod yn anos i'w cyflawni 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Gall y Cyngor adnabod ei fwlch o ran cyllid yn y tymor canolig, ond mae heriau'n dal i fodoli o ran cau'r bwlch hwnnw ac mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am gynlluniau arbedion tymor canolig 7

Mae'r Cyngor wedi cynyddu balansau ei gronfeydd wrth gefn yn ddiweddar ar ôl cyfnod o ddirywiad, ond mae lefelau'n dal i fod yn isel ac mae'r defnydd cyfredol o dderbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant refeniw'n anghynaliadwy yn y tymor hir 10

Mae'r Cyngor yn parhau i fantoli ei gyllideb trwy gamau gweithredu yn ystod y flwyddyn, er ei fod yn parhau i brofi pwysau sylweddol o ran costau a gorwariannau mewn rhai meysydd gwasanaeth 13

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21 15

Er bod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn isel, mae'r Cyngor yn credu bod ei lif arian parod yn ddigonol i gyflawni ei rwymedigaethau 16

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | I sicrhau bod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagfynegi gofynion o ran cyllid yn y dyfodol mor gywir â phosibl, dylai'r Cyngor:<br>• fynd ati'n rheolaidd i adolygu ei amcangyfrifon o bwysau o ran costau yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn rhesymol ac yn adlewyrchu lefelau diweddar y pwysau o ran costau. |
| C2 | I bontio'i fwlch o ran cyllid a amcangyfrifir yn y dyfodol a chyfrannu at gryfhau ei gynaliadwyedd ariannol, dylai'r Cyngor:<br>• ddatblygu a chyflawni rhaglen o arbedion wedi'u cynllunio cynaliadwy dros y tymor canolig. |

# Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am ei sefyllfa ariannol, ond mae'r sefyllfa honno'n gryn her gyda phwysau sylweddol o ran gwariant, balansau isel mewn cronfeydd wrth gefn ac arbedion yn dod yn anos i'w cyflawni

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

### Yr hyn a ganfuom

7 Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd y pandemig wedi costio £19.6 miliwn iddo yn 2020-21. Mae hyn yn cynnwys £11.3 miliwn o wariant ychwanegol a cholledion incwm o £8.4 miliwn.

8 Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y costau hyn yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

9 Ym mis Mehefin 2020, fe wnaeth y Cyngor asesu'r risgiau ariannol yr oedd yn eu hwynebu yn sgîl y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ac o waith posibl i ail-flaenoriaethu cronfeydd wrth gefn i gwrdd ag unrhyw bwysau sy'n gysylltiedig â COVID-19 na fyddent yn cael eu hariannu â chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r risgiau ac mae'r rhain yn goleuo adroddiadau monitro'r gyllideb rheolaidd yn ogystal â'i Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynyddu mynychder ei adroddiadau monitro'r gyllideb i sicrhau bod aelodau etholedig yn cael gwybodaeth amserol am faterion ariannol sy'n dod i'r amlwg.

10 Mae'r Cyngor wedi modelu pwysau colli incwm ar gyfer 2021-22 a achoswyd gan y pandemig ond nid oes unrhyw gynlluniau ganddo i leihau ei ffioedd a thaliadau. Mae papurau terfynol y gyllideb ar gyfer 2021-22 yn dangos cynnydd cyfartalog mewn ffioedd a thaliadau o 2.5% ond mae hyn yn amrywio fesul gwasanaeth ac yn seiliedig ar farn swyddogion ynglŷn â'r hyn y gall y farchnad ei fforddio yn eu tyb hwy.

11 Mae'r Cyngor wedi penderfynu cadw ei gyfradd casglu'r dreth gyngor ar 99% ar gyfer 2021-22 hefyd. Mae'r Cyngor yn ystyried bod hon yn dybiaeth resymol yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau hanesyddol a chyfraddau casglu yn ystod 2020-21.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21[2]**

Mae’r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a’r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19 yn ôl yr amcangyfrifon, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £11.3 miliwn |
| Swm yr incwm y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi’i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £8.4 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae’r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19:<br>• Y Gronfa Galedi – £19.6 miliwn<br>• Grantiau eraill sy’n gysylltiedig â COVID-19 – £3.1 miliwn | £22.7 miliwn |
| Cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £0 |

## Gall y Cyngor adnabod ei fwlch o ran cyllid yn y tymor canolig, ond mae heriau’n dal i fodoli o ran cau’r bwlch hwnnw ac mae’r Cyngor yn cydnabod yr angen am gynlluniau arbedion tymor canolig

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

12 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a’r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae’n bwriadu ymateb i’r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

[2] Ffynhonnell: Adroddiad Alldro 2020-21

## Yr hyn a ganfuom

13 Y llynedd canfuom nad oedd gan y Cyngor eto strategaeth ariannol i gefnogi cydnerthedd ariannol a chynaliadwyedd dros y tymor canolig.


14 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diweddaraf a phapurau diweddaraf y gyllideb yn cynnwys rhagolygon manwl ar gyfer pwysau ariannol yn 2021-22, ond dim ond pwysau cyfyngedig o ran costau sydd wedi cael eu hadnabod ar gyfer y tair blynedd sy'n weddill o'r CATC. Mae'r CATC yn cynnwys darpariaeth o £5 miliwn y flwyddyn ar gyfer pwysau heb eu nodi o 2022-23. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar lefelau hanesyddol pwysau ac mae wedi cael ei gynyddu o £2.5 miliwn. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysau o ran costau a adnabuwyd fel rhan o broses pennu'r gyllideb yn aml wedi bod yn uwch na £5 miliwn, gan amrywio o £5.6 miliwn yng nghyllideb 2018-19 i £10.3 miliwn yng nghyllideb 2021-22. Byddai'n ddoeth, felly, pe bai'r Cyngor yn adolygu'r amcangyfrif hwn bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn adlewyrchu lefelau diweddar y pwysau o ran costau.

15 Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith mwy manwl i adnabod maint y pwysau yn nes at y flwyddyn dan sylw a thrwy broses flynyddol y gyllideb. Mae pwysau na ellir eu rheoli o fewn y gwasanaeth yn cael eu hystyried fel rhan o broses pennu'r gyllideb ac yn cael eu herio gan swyddogion ac aelodau.

16 Dengys **Arddangosyn 3** nad oes gan y Cyngor unrhyw fwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer 2021-22 (unwaith y rhoddwyd ystyriaeth i arbedion wedi'u cynllunio) ond bod bwlch o £5 miliwn yn dal i fodoli ar gyfer 2022-23 a £10.6 miliwn ar gyfer 2023-24. Mae'r ffigyrau hyn yn gronnus, felly gan dybio y bydd y Cyngor yn adnabod £5 miliwn o arbedion cylchol ar gyfer 2022-23, bydd hyn hefyd yn arwain at leihad o £5 miliwn yn y bwlch o ran cyllid ar gyfer 2023-24.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £15.6 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i nodi ar gyfer y tair blynedd ganlynol[3].




17 I oleuo cynllunio ariannol ac adnabod eu bylchau o ran cyllid a ragamcanir, mae'r holl gynghorau'n gwneud tybiaethau ynghylch ffactorau a fydd yn effeithio ar faint o gyllid fydd ar gael iddynt mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Mae tybiaethau'r Cyngor yn ei SATC yn darparu rhagolwg fantoledig ar adeg ei chyhoeddi o'i gymharu â'r tybiaethau a wnaed gan yr holl Gynghorau ledled Cymru.

18 Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn herio'r tybiaethau yn ei CATC yn rheolaidd. Mae swyddogion yn egluro'r rhesymeg dros y tybiaethau wrth aelodau etholedig. Gall y bwlch o ran cyllid gynyddu os yw pwysau o ran costau mewn blynyddoedd yn y dyfodol yn uwch na'r amcangyfrif o £5 miliwn sydd wedi'i gynnwys yn y CATC.

19 Mae'r Cyngor eisoes wedi cau'r bwlch o ran cyllid ar gyfer 2021-22 fel rhan o broses y gyllideb. Cyflawnodd hyn trwy:

- gynnydd o 3.89% yn y Dreth Gyngor;
- setliad gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru; ac
- arbedion o £4.7 miliwn i'w cyflawni yn y flwyddyn.

20 Fodd bynnag, nid yw'r CATC yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cau'r bwlch o ran cyllid y tu hwnt i 2021-22. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu CATC mantoledig ac yn cydnabod hyn ym mhapurau'r gyllideb ar gyfer 2021-22.

[3] Ffynhonnell: Cynigion Terfynol y Gyllideb Refeniw a Chyfalaf a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 11 Mawrth 2021

Fodd bynnag, mae'n wynebu heriau wrth wneud hynny. Mae rhwystrau a risgiau allweddol yn cynnwys:

- ansicrwydd ynghylch cyllid tymor canolig gan Lywodraeth Cymru, oherwydd diffyg ffigyrau dangosol ar gyfer setliadau a newidiadau i gyllid COVID-19. Mae Cronfa Galedi COVID-19 Llywodraeth Cymru i fod i ddod i ben ar 30 Medi 2021, ac ar ôl hynny ni fydd y Cyngor yn gallu adfer pwysau parhaus o ran costau a cholledion incwm parhaus sy'n gysylltiedig â'r pandemig;
- pwysau ar wasanaethau – yn bwysau presennol a phwysau sy'n dod i'r amlwg o'r newydd o ganlyniad i'r pandemig; ac
- effaith cylch etholiadau llywodraeth leol ar wneud penderfyniadau ariannol.

21 Yn dilyn blynyddoedd lawer o doriadau i gyllidebau ac arbedion effeithlonrwydd, mae'n dod yn fwyfwy anodd i'r Cyngor adnabod a chyflawni arbedion yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddatblygu cynlluniau arbedion tymor canolig sy'n darparu digon o amser paratoi ac mae'r Uwch Dîm Arwain yn amcanu at ddatblygu cynlluniau arbedion tymor hwy dros y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn darparu dull mwy cynaliadwy o gau bylchau yn y gyllideb yn y dyfodol ond bydd yn golygu ei bod yn ofynnol i aelodau wneud penderfyniadau tymor hwy.

## Mae'r Cyngor wedi cynyddu balansau ei gronfeydd wrth gefn yn ddiweddar ar ôl cyfnod o ddirywiad, ond mae lefelau'n dal i fod yn isel ac mae'r defnydd cyfredol o dderbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant refeniw'n anghynaliadwy yn y tymor hir

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

22 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

23 Y llynedd, canfuom fod Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn gyson â'i strategaeth cronfeydd wrth gefn, ond bod cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar y cyfan yn gymharol isel ac yn parhau i ostwng.

24 Mae **Arddangosyn 4** isod yn dangos patrwm o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn lleihau'n araf tan ddiwedd 2019-20 pan ychwanegodd y Cyngor warged

diwedd blwyddyn o £1.8 miliwn at Gronfa'r Cyngor. Roedd hwn yn ddull darbodus o ystyried y pandemig a oedd yn dod i'r amlwg a'r angen posibl i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn 2020-21 i ariannu gwariant a oedd yn gysylltiedig â COVID.

25 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae lefel y Cyngor o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net ei wasanaethau wedi amrywio rhwng y drydedd a'r bumed isaf yng Nghymru.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [4] | 147.0 | 149.2 | 153.9 | 158.8 | 174.0 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [5] | 15.2 | 14.7 | 13.5 | 14.9[6] | 18.9 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [7] | 10.3% | 9.9% | 8.8% | 9.4% | 10.9% |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 18fed | 20fed | 20fed | 19eg | |

26 Dynododd y Cyngor y gallai fod angen iddo ddefnyddio Cronfa'r Cyngor i fantoli ei gyllideb yn 2020-21 pe na bai camau cyllidebol lliniarol yn ddigon i fynd i'r afael â gorwariannau a ragwelir. Fodd bynnag, roedd y sefyllfa well a ragwelid ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020 yn golygu nad oedd hyn yn angenrheidiol mwyach. Ar ddiwedd mis Rhagfyr rhagwelwyd y byddai cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'u clustnodi yn gostwng £849,000 yn ystod 2020-21. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn

[4] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon ac adroddiad alldro 2020-21

[5] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon ac adroddiad alldro 2020-21.

[6] Mae'r cynnydd o £1.4 miliwn i gyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn 2019-20 yn cynnwys y gwarged diwedd blwyddyn o £1.8 miliwn a ychwanegwyd at Gronfa'r Cyngor namyn £0.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

[7] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

cynnig defnyddio'i warged diwedd blwyddyn ar gyfer 2020-21 i hybu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ymhellach.

27 Yn yr un modd, roedd cynigion drafft y gyllideb ar gyfer 2021-22 yn nodi'n wreiddiol ddefnydd arfaethedig o £748,000 o Gronfa'r Cyngor. Ond yn dilyn addasiadau i'r cynigion drafft, nid oes angen i'r Cyngor ddefnyddio'r Gronfa mwyach i fantoli'r gyllideb. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn 2021-22.

28 Er nad yw'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf wedi'i chynnwys yn ein diffiniad ni o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, mae'n werth gwneud sylw am y defnydd ohoni i ariannu gwariant refeniw. Ar ddiwedd 2019-20, roedd balans y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf yn £3.2 miliwn (i lawr o £4.6 miliwn yn 2018-19). Roedd y Cyngor yn bwriadu defnyddio £2.1 miliwn o dderbyniadau cyfalaf yn 2020-21 a £2.2 miliwn arall yn 2021-22 trwy gyfarwyddeb Llywodraeth Cymru ar ddefnydd hyblyg o dderbyniadau cyfalaf. Fodd bynnag, roedd llai o weithgarwch gan wasanaethau yn ystod y flwyddyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle hynny, wedi defnyddio £1 miliwn o dderbyniadau cyfalaf. Mae'r Cyngor yn rhagweld mai £9.2 miliwn fydd balans y gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf ar ddiwedd 2020-21, unwaith y rhoddir cyfrif am dderbyniadau newydd hefyd. Mae'r gyfarwyddeb yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu costau refeniw cymwys megis y rhai a ysgwyddir wrth drawsnewid gwasanaethau. Er bod hyn yn helpu i leddfu'r pwysau ar gyllidebau refeniw yn y tymor byr, mae'n effeithio ar allu'r Cyngor i ariannu prosiectau cyfalaf dros y tymor canolig a hir. Felly gallai defnydd parhaus o'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf yn y ffordd hon olygu y bydd angen i'r Cyngor fenthyca'n fwy helaeth i ariannu prosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

29 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar lefelau isel ac nad yw defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn – a'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf – yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae wedi gwneud hyn yn glir mewn adroddiadau ar y gyllideb i aelodau, gan gyfeirio at 'lefelau hanesyddol isel' cronfeydd wrth gefn.

30 Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn ei chael yn gryn her cronni ei gronfeydd wrth gefn a pharhau i ddarparu gwasanaethau ar yr un pryd. Mae'r adroddiad monitro'r gyllideb diweddaraf i'r aelodau'n argymell bod unrhyw warged ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio i roi ychydig o hyblygrwydd i'r Cabinet ar gyfer dewisiadau polisi, a allai gynnwys cryfhau cronfeydd wrth gefn y Cyngor i ymateb i heriau ariannol yn y dyfodol. Mae hyn yn dilyn penderfyniad y llynedd i ychwanegu'r gwarged ar ddiwedd y flwyddyn yn 2019-20 at Gronfa'r Cyngor. Bydd parhau i gynyddu ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach i ymateb i heriau ariannol yn y dyfodol. Yn enwedig yng nghyd-destun y bylchau yn y gyllideb a ragwelir yn y CATC ac ansicrwydd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â COVID yn y tymor canolig.

31 Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei strategaeth bresennol ar gyfer cronfeydd wrth gefn dros y flwyddyn nesaf i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y tymor canolig a hir. Mae hyn yn debygol o ganolbwyntio ar adolygu cronfeydd wrth gefn wedi'u

clustnodi i sicrhau eu bod yn cydberthyn â risgiau penodol ac yn cael eu defnyddio fel a fwriadwyd. Felly mae unrhyw warged diwedd blwyddyn sydd ar gael i ategu cronfeydd wrth gefn yn debygol o gynyddu lefelau cronfeydd wrth gefn yn hytrach na Chronfa'r Cyngor.

## Mae'r Cyngor yn parhau i fantoli ei gyllideb trwy gamau gweithredu yn ystod y flwyddyn, er ei fod yn parhau i brofi pwysau sylweddol o ran costau a gorwariannau mewn rhai meysydd gwasanaeth

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

32 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

33 Y llynedd, canfuom, er bod y Cyngor wedi tanwario yn erbyn ei gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, fod pwysau sylweddol ar y gyllideb a arweinir gan y galw'n gosod straen sylweddol ar gyllidebau yn y dyfodol.

34 Ers hynny, fe gyflawnodd y Cyngor danwariant o £1.8 miliwn (1.1%) yn 2019-20. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cyngor dderbyniad TAW untro o £2.3 miliwn a oedd yn ymwneud ag incwm o'r gwasanaethau hamdden a oedd wedi'i esemptio. Roedd camau gweithredu pellach a gyflawnwyd gan y Cyngor yn cynnwys:

- defnydd hyblyg o dderbyniadau cyfalaf;
- cyflawni arbedion ychwanegol yn ystod y flwyddyn;
- tanwariannau mewn gwasanaethau corfforaethol yn helpu i wrthbwyso gorwariannau mewn gwasanaethau a oedd yn profi pwysau mwy difrifol o ran costau;
- lleihau gwariant nad yw'n hanfodol; a
- rheoli swyddi gwag.

35 Mae adroddiad monitro'r gyllideb y Cyngor ar gyfer mis 9 yn rhagweld tanwariant o £142,000 yn 2020-21 unwaith y rhoddir cyfrif am wariant sy'n gysylltiedig â COVID. Mae hyn hefyd wedi cael ei gyflawni gan ddefnyddio'r technegau uchod (heblaw am yr ad-daliad TAW).

36 Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor wedi cael hysbysiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cyllid grant ychwanegol mewn perthynas â COVID-19. Mae hyn wedi arwain at warged o £4.1 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r

Cyngor yn cynnig defnyddio'r gwarged hwn i ail-lenwi cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i roi mwy o gydnerthedd ariannol iddo.

**Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pum mlynedd ddiwethaf.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [8] | 148.7 | 152.1 | 157.8 | 161.8 | 170.4 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol [9] | 147.8 | 151.5 | 157.8 | 160.0 | 166.3 |
| Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan [10] | 0.9 | 0.6 | 0.05 | 1.8 | 4.1 |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | 0.6% | 0.4% | 0.03% | 1.1% | 2.4% |

37 Mae llawer o bwysau o ran costau a gorwariannau yn 2020-21 yn gysylltiedig â gwariant ychwanegol neu incwm a gollwyd o ganlyniad i COVID-19. Fodd bynnag, mae gan rai o wasanaethau'r Cyngor orwariannau cylchol sy'n rhagddyddio'r pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau Plant, yn enwedig costau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Cludiant teithwyr
- Gwasanaethau gwastraff

38 Mae'r Cyngor yn archwilio ffyrdd newydd o reoli rhai o'r pwysau hyn o ran costau. Er enghraifft, mae adolygiad o gludiant ysgolion yn mynd rhagddo, ac mae'r gwasanaeth gwastraff yn cymhwyso nifer o newidiadau i'r gwasanaeth. Mae'r Gwasanaethau Plant wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i helpu i reoli'r galw ym maes Plant sy'n Derbyn Gofal ac mae'r Cyngor yn nodi ei fod yn dechrau gweld arwyddion cynnar o effaith y mentrau hyn, gyda nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dechrau sefydlogi yn ystod 2020--21.

[8] Ffynhonnell: Adroddiadau Alldro'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2020-21
[9] Ffynhonnell: Adroddiadau Alldro'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2020-21
[10] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

## Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2020-21

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

39 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

40 Y llynedd, canfuom fod gan y Cyngor hanes amrywiol o gyflawni arbedion wedi'u cynllunio, a all gyfrannu at bwysau ariannol yn ystod y flwyddyn.

41 Dengys **Arddangosyn 6** fod y Cyngor wedi cyflawni 84% o'r arbedion wedi'u cynllunio yn 2019-20.

42 Roedd gan y Cyngor £4.9 miliwn o arbedion wedi'u cynllunio yn 2020-21 ond mae'r pandemig wedi effeithio ar gyflawni rhai cynigion ar gyfer arbedion. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflawni 85% (£4.2 miliwn) o gyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio.

43 O'r £0.7 miliwn o arbedion heb eu cyflawni, mae'r Cyngor yn amcangyfrif bod £0.6 miliwn yn gysylltiedig ag effaith COVID-19.

**Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion rhwng 2016-17 a 2020-21 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau [11] | 3.7 | 5.3 | 5.1 | 6.4 | 4.9 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau [12] | 2.4 | 4.9 | 4.1 | 5.4 | 4.2 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 1.3 | 0.4 | 1.0 | 1.1 | 0.7 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 66% | 93% | 81% | 84% | 85% |

## Er bod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn isel, mae'r Cyngor yn credu bod ei lif arian parod yn ddigonol i gyflawni ei rwymedigaethau

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

44 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

[11] Ffynhonnell: Datganiadau alldro refeniw'r Cyngor

[12] Ffynhonnell: Datganiadau alldro refeniw'r Cyngor

## Yr hyn a ganfuom

45 Mae gan y Cyngor duedd o hylifedd sy'n lleihau dros y blynyddoedd diwethaf gan bod ei rwymedigaethau cyfredol wedi cynyddu.

46 Mae **Arddangosyn 7** isod yn dangos bod rhwymedigaethau cyfredol y Cyngor wedi cynyddu £70.6 miliwn (128%) rhwng 2015-16 a 2019-20. Dros yr un cyfnod, fe gynyddodd asedau cyfredol y Cyngor £6.4 miliwn (12%). O ganlyniad, mae cymhareb cyfalaf gweithio'r Cyngor wedi gostwng o 1 i 0.5 sy'n golygu ei fod yr ail isaf yng Nghymru.

47 Y gymhareb hylifedd ragamcanol ar gyfer 2020-21 yw 0.4.

48 Mae'r gostyngiad yn y gymhareb cyfalaf gweithio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi digwydd yn bennaf oherwydd strategaeth trysorlys dactegol i ffafrio benthyca tymor byr neu ddefnyddio adnoddau mewnol dros fenthyca tymor hir. Disgwylir i'r strategaeth hon aros yn y tymor agos nes bydd cynlluniau buddsoddi cyfalaf yn crisialu a / neu amodau'r farchnad yn newid. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei sefyllfa hylifedd yn risg allweddol gan bod derbyniadau arian parod rheolaidd yn sicrhau ei fod yn gallu cwrdd â'i rwymedigaethau cyfredol.

**Arddangosyn 7: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2020-21**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [13] | 52.7 | 29.7 | 40.9 | 53.7 | 59.1 | 55.7 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [14] | 55.3 | 52.3 | 91.7 | 105.1 | 125.9 | 125.2 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 1.0 | 0.6 | 0.4 | 0.5 | 0.5 | 0.4 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio Gyfartalog ar draws holl gynghorau Cymru | 16eg | 20fed | 21ain | 21ain | 21ain | |

[13] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth. Ffynhonnell: 2015-16 – 2019-20: Datganiad Cyfrifon y Cyngor; 2020-21: darparwyd gan y Cyngor

[14] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn. Ffynhonnell: 2015-16 – 2019-20: Datganiad Cyfrifon y Cyngor; 2020-21: darparwyd gan y Cyngor

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.